# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 7

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH SWYDDOGAETHAU CCAUC

*Gwybodaeth arall etc sydd i'w rhoi gan CCAUC*

### 52 Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd

(1) Rhaid i CCAUC lunio a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd.

(2) O ran CCAUC—

(a) rhaid iddo adolygu'r datganiad yn gyson;

(b) caiff ei ddiwygio.

(3) Cyn cyhoeddi'r datganiad neu ddatganiad diwygiedig, rhaid i CCAUC ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig, a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) llunio'r datganiad (gan gynnwys o ran ei ffurf a'i gynnwys);

(b) ei gyhoeddi;

(c) yr ymgynghoriad sydd i'w gynnal o dan is-adran (3).

(5) Swyddogaethau ymyrryd CCAUC yw ei swyddogaethau o dan y darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 11 (cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu);

(b) adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd);

(c) adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol);

(d) adran 20(1) a (2) (mesurau eraill mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol);

(e) adran 33 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod);
(f) adran 34(1) a (2) (mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod);
(g) adran 37 (gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd);
(h) adrannau 38 a 39 (tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl).

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I1** | A. 52 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)** |
| **I2** | A. 52(1) mewn grym ar 25.5.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(g)** |
| **I3** | A. 52(1) mewn grym ar 1.9.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1327, **ergl. 5(n)** |
| **I4** | A. 52(1) mewn grym ar 3.2.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2016/110, **ergl. 2(b)** |
| **I5** | A. 52(2)(3) mewn grym ar 1.9.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 5(o)** |
| **I6** | A. 52(4) mewn grym ar 20.5.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1327, **ergl. 2(r)** |
| **I7** | A. 52(5) mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(h)** |

## 53 Gwybodaeth a chyngor sydd i'w rhoi gan CCAUC i Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i CCAUC, os y'i cyfarwyddir i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff CCAUC roi i Weinidogion Cymru wybodaeth a chyngor arall sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I8** | A. 53 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)** |
| **I9** | A. 53 mewn grym ar 1.9.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 5(p)** |

## 54 Gwybodaeth a chyngor arall

(1) Caiff CCAUC—
(a) adnabod arfer da sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch, a
(b) rhoi gwybodaeth a chyngor ynghylch yr arfer hwnnw i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig, neu i gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol.

(2) Wrth arfer ei swyddogaethau, mae corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig i ystyried unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan CCAUC iddo ef, neu i gyrff llywodraethu yn gyffredinol, o dan is-adran (1)(b).

(3) Caiff CCAUC ddarparu unrhyw wybodaeth a chyngor arall sy'n briodol yn ei farn ef gan roi sylw i'w swyddogaethau a swyddogaethau sefydliadau rheoleiddiedig (ymhlith pethau eraill).

(4) Caiff yr wybodaeth a'r cyngor hynny (ymhlith pethau eraill) ymwneud â'r canlynol—
(a) pwerau a dyletswyddau sefydliadau rheoleiddiedig;
(b) trefnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig;

(c) effaith cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I11** A. 54(2) mewn grym ar 1.8.2017 gan O.S. 2017/239, **ergl. 2**

**I12** A. 54(1) mewn grym ar 1.9.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 5(q)**

**I13** A. 54(3)(4) mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Croes Bennawd: Gwybodaeth arall etc sydd i'w rhoi gan CCAUC yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 31